

# Cyfarwyddiadau
# Tirluniau Talpiau Papur





**Cam 1:** Tynnwch dair llinell ar draws y darn o bapur gwag.

Y llinellau yma yw **blaendir**, **tir canol** a **chefndir** eich tirlun.




Bydd y llinellau yn eich helpu i gynllunio'r darlun. Mae gwrthrychau yn y **blaendir**, fel y coed yn y darlun hwn, yn ymddangos yn fwy a gwrthrychau yn y **cefndir** yn llai.



**Cam 2:** Dewiswch bapur a rhwygo stribed o'ch lliw cyntaf. Gludwch y papur gan adael ychydig o le ar y top fel yr awyr.

**Cam 3:** Gweithiwch eich ffordd i lawr y dudalen, gan adeiladu'r stribedi papur a'u gludo.

Arbrofwch wrth rwygo. Ceisiwch greu mynyddoedd, bryniau, gwastatir neu gaeau.



Ychwanegwch haenau o bapur tan i chi gyrraedd gwaelod y papur.

Beth am ychwanegu manylion wedi'u rhwygo o bapur – coed cymylau, haul neu flodau.